Y Comisiwn Etholiadol

Cyflwyniad

# Cyflwyniad i gofrestru plaid wleidyddol

Mae'r ddogfen hon i bobl sy'n ystyried sefydlu plaid wleidyddol ac yn dymuno gwybod ble i ddechrau.

Cynnwys:


Cyflwyniad i'r Comisiwn Etholiadol

Cofrestr o bleidiau gwleidyddol

Pwy all sefyll mewn etholiad

Rolau swyddogol o fewn plaid neu grŵp

Cofrestru plaid

## Termau ac ymadroddion rydyn ni'n eu defnyddio

Rydyn ni'n defnyddio '**rhaid**' pan ydyn ni'n cyfeirio at ofyniad cyfreithiol neu reoleiddiol penodol. Rydyn ni'n defnyddio '**dylai**' ar gyfer eitemau rydyn ni'n eu hystyried i fod yn isafswm ar gyfer arfer da, ond nad ydyn nhw'n ofynion cyfreithiol.

Does dim rhaid ichi ddilyn y canllawiau hyn, ond os ydych chi, fel arfer byddwch chi'n gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

## Ein hagwedd tuag at orfodi

Os nad ydych chi'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol efallai byddwch chi neu eich mudiad yn agored i sancsiynau sifil neu droseddol. Gallwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth ynghylch agwedd y Comisiwn tuag at orfodi ar www.electoralcommission.org.uk/party-finance/enforcement.

1

# Cyflwyniad i gofrestru plaid wleidyddol

## Ar gyfer pwy mae'r ddogfen hon:

Pobl sy'n ystyried sefydlu plaid wleidyddol.

## Mae'r ddogfen yn trafod:

- Cyflwyniad i'r Comisiwn Etholiadol
- Cofrestr o bleidiau gwleidyddol
- Pwy all sefyll mewn etholiad
- Rolau swyddogol o fewn plaid neu grŵp
- Pwy all gofrestru â ni
- Strwythur eich plaid
- Dewis enw, disgrifiad ac arwyddlun i'ch plaid
- Beth nesaf?

## Dogfennau cysylltiedig:

- Trosolwg o enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau pleidiau
- Trosolwg o gynnal manylion pleidiau
- Proses gofrestru plaid wleidyddol

2

# Crynodeb

Os ydych yn meddwl am sefydlu plaid wleidyddol, efallai y bydd angen i chi gofrestru â ni. Os byddwch, bydd angen i chi ddilyn ambell reol.

Mae'r ddogfen hon yn esbonio pryd a sut i gofrestru â ni, yn amlinellu'r rheolau sylfaenol sydd angen i chi eu dilyn a ble i ddod o hyd i ragor o wybodaeth.

Os hoffech gael help neu gyngor ar unrhyw adeg, ffoniwch ni. Rydym yma i'ch helpu chi.

# Cyflwyniad

## Y Comisiwn Etholiadol – Pwy ydyn ni

Rydym yn gorff annibynnol a sefydlwyd gan Senedd y Deyrnas Unedig. Ein nod yw hygrededd y broses ddemocrataidd a hyder y cyhoedd ynddi.

Rydym yn:

- Cofrestru pleidiau gwleidyddol ac yn rheoleiddio cydymffurfiad pleidiau dan y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA)
- Cadw cofrestr o'r pleidiau gwleidyddol ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon
- Gosod y safonau ar gyfer cofrestru etholiadol a rhedeg etholiadau, ac adrodd ar ba mor dda mae hyn yn cael ei wneud
- Rhedeg unrhyw refferenda a gynhelir dan PPERA
- Cyhoeddi manylion o ble caiff y pleidiau ac ymgyrchwyr etholiadau eraill eu harian a sut y maent yn ei wario
- Sicrhau bod pobl yn deall ac yn dilyn y rheolau ar gyfer cyllid plaid ac etholiad
- Sicrhau fod pobl yn deall ei fod yn bwysig cofrestru i bleidleisio, a gwybod sut i bleidleisio

## Democratiaeth iach

Mae pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr yn hanfodol i ddemocratiaeth iach ac rydym yn annog pawb i gymryd rhan.

Mae sawl ffordd i chi gymryd rhan. O ymuno â phlaid bresennol neu grŵp buddiant, i sefyll etholiad fel ymgeisydd annibynnol neu sefydlu plaid wleidyddol eich hun.

## Sefydlu plaid wleidyddol

Os ydych yn ystyried sefydlu plaid wleidyddol, mae'n bosibl y bydd angen i chi gofrestru â ni a dilyn y rheolau.

Bydd y cyfarwyddyd hwn yn eich tywys trwy pryd a sut i gofrestru, mae'n rhoi amlinelliad o'r rheolau sylfaenol ac yn rhoi gwybod i chi ble gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth.

# 4

# Y gofrestr o bleidiau gwleidyddol

Mae dwy gofrestr o bleidiau gwleidyddol yn y Deyrnas Unedig, un ar gyfer Prydain Fawr a'r llall ar gyfer Gogledd Iwerddon. Ni sy'n cynnal cofrestrau Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon.

Mae'r cofrestrau hyn yn cynnwys manylion yr holl bleidiau gwleidyddol sydd wedi eu cofrestru i ymladd etholiadau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban (cofrestr Prydain Fawr) a Gogledd Iwerddon (cofrestr Gogledd Iwerddon).

Mae pleidiau ar gofrestrau Prydain Fawr hefyd yn dewis ym mha rannau o Brydain Fawr mae arnynt eisiau cofrestru. Gall pleidiau ddewis cyfuniad o Gymru, Lloegr neu'r Alban.

Fel trosolwg, mae'r cofnodion ar gyfer pleidiau gwleidyddol cofrestredig yn dangos:

- enw'r blaid a chyfeiriad y brif swyddfa
- arwyddluniau'r blaid
- disgrifiadau'r blaid
- enwau swyddogion y blaid

I weld sut mae cofnod plaid gofrestredig yn edrych, ewch i PEF Arlein

## Pam cofrestru?

Prif fantais cofrestru yw y gall enw, disgrifiad ac arwyddlun eich plaid ymddangos ar y papurau pleidleisio.

Os nad ydych wedi cofrestru, dim ond fel 'Annibynnol' y gellir disgrifio'ch ymgeisydd (neu 'Independent' yn Saesneg).

Hefyd, wedi i chi gofrestru'ch enw â ni, ni all unrhyw blaid arall gofrestru'r enw hwn nac enw tebyg all beri dryswch. Mae hyn yn atal pleidleiswyr rhag camgymryd un blaid am un arall ar y papur pleidleisio.

# Pwy all sefyll mewn etholiad?

Am wybodaeth ar arwyddluniau pleidiau, gweler:

- Trosolwg o enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau pleidiau

## Ymgeiswyr annibynnol a grwpiau

Mae ymgeiswyr neu grwpiau annibynnol yn dueddol o gynrychioli eu hetholaeth leol neu faterion lleol. Gallant ymladd etholiad awdurdod lleol, datganoledig, cenedlaethol neu Ewropeaidd.

Nid oes rhaid i ymgeiswyr neu grwpiau annibynnol gofrestru â ni. Fodd bynnag, os byddant yn gwneud, gallant ddefnyddio nodau adnabod eu grŵp ar bapurau pleidleisio etholiad. Os nad ydynt yn cofrestru â ni, dim ond 'Annibynnol' (neu 'Independent' yn Saesneg) allant ei ddefnyddio.

Dan PPERA, nid oes gan ymgeiswyr annibynnol unrhyw gyfrifoldebau i adrodd fel plaid, ond rhaid iddynt roi adroddiad ar eu gwariant ar yr etholiad a rhoddion i'r Swyddogion Canlyniadau lleol wedi'r etholiad.

## Mathau o bleidiau gwleidyddol

Mae dwy fath o blaid wleidyddol sy'n gallu sefyll etholiad. Sef:

- Pleidiau gwleidyddol cofrestredig
- Pleidiau gwleidyddol llai

### Pleidiau gwleidyddol cofrestredig

Sefydlir pleidiau gwleidyddol cofrestredig i ymladd etholiadau awdurdod lleol, datganoledig, cenedlaethol neu Ewropeaidd.

Gellir eu cofrestru fel pleidiau gwleidyddol ar gofrestr Prydain Fawr, cofrestr Gogledd Iwerddon, neu'r ddau. Ac, yn ddibynnol ar ba gofrestrau maent yn ymddangos, gallant ymladd etholiadau ym Mhrydain Fawr, Gogledd Iwerddon neu'r ddau.

Dan PPERA, rhaid i bleidiau gwleidyddol cofrestredig gydymffurfio â rheoliadau ariannol a gofynion adrodd.

Mae'r rheolau hyn yn cynnwys rheoliadau rhoddion a benthyciadau parhaus, rheoliadau ar wariant yn ystod etholiadau rheoledig, adrodd ar gyfrifon blynyddol a chadarnhad blynyddol o gofrestriad.

# 6

## Eich cyfrifoldebau fel plaid wleidyddol

Dan PPERA, rhaid i blaid wleidyddol gofrestredig:

- sicrhau fod unrhyw roddion a benthyciadau dros £500 yn dod yn bennaf gan ffynonellau yn y Deyrnas Unedig
- adrodd ar roddion a benthyciadau pob chwarter, ac adrodd yn wythnosol yn ystod etholiad cyffredinol
- gadw at gyfyngiadau gwariant ymgyrchoedd yn ystod etholiadau, ac adrodd ar wariant ymgyrchu i ni
- gadw cyfrifon a chofnodion cywir
- anfon cyfrifon blynyddol atom
- os yw incwm neu wariant y blaid dros £250,000 y flwyddyn, rhaid i chi hefyd anfon adroddiad archwilydd atom
- gadw manylion y blaid yn gyfredol gyda ni, a'u cadarnhau yn flynyddol

Am ragor o wybodaeth ar roddion a benthyciadau, gweler:

- Trosolwg o roddion i bleidiau gwleidyddol
- Trosolwg o fenthyciadau i bleidiau gwleidyddol

Pwysig

Mae'r rheolau hyn yn sicrhau cywirdeb a thryloywder cyllid pleidiau gwleidyddol. Os nad ydych yn eu dilyn, gallech fod yn agored i ddirwyon neu weithredu gorfodol arall. Mewn rhai achosion, gall hyn gynnwys cael eich cyfeirio am erlyniad troseddol.

Mae gennych gyfrifoldebau sylweddol fel plaid wleidyddol, felly mae'n bwysig eich bod yn deall y rhain yn llawn cyn i chi gofrestru â ni.

## Pleidiau llai

Mae pleidiau llai yn bleidiau sy'n ymladd etholiadau cynghorau plwyf (Lloegr) ac etholiadau cyngor cymuned (Cymru) yn unig.

Maent wedi eu cofrestru ar gofrestr Prydain Fawr.

Dan PPERA, nid yw pleidiau llai yn ddarostyngedig i'r rheoliadau ariannol y mae'n rhaid i bleidiau gwleidyddol gydymffurfio â nhw. Nid oes rhaid iddynt benodi trysorydd plaid a dim ond cadarnhad cofrestriad blynyddol sy'n rhaid iddynt ei ddarparu. Mae'r wybodaeth sy'n rhaid iddynt ei chyflwyno wrth gofrestru â ni hefyd yn llawer llai manwl.

## Eich cyfrifoldebau fel plaid lai

Mae gan blaid lai lawer llai o gyfrifoldebau na phlaid wleidyddol gofrestredig. Rhaid iddynt:

- Gyflwyno cadarnhad cofrestru blynyddol i ni

Os mai **dim ond** mewn etholiadau cyngor plwyf neu gymuned fyddwch chi'n sefyll, mae'n well cofrestru fel plaid lai. Bydd yn ddigon hawdd i chi newid eich statws fel plaid wleidyddol gofrestredig yn hwyrach os dymunwch.

Os hoffech gofrestru fel plaid lai, ffoniwch ni. Byddwn yn rhoi cyngor i chi ac yn esbonio sut i wneud cais.

Pwysig
Os ydych yn ystyried cofrestru fel plaid lai, ffoniwch ni.

# Pa rolau swyddogol sydd eu hangen mewn plaid neu grŵp gwleidyddol?

Rhaid i bleidiau neu grwpiau gwleidyddol cofrestredig benodi pobl i rolau swyddogol penodol. Mae tair prif rôl. Fel trosolwg cyffredinol, y rhain yw:

## Arweinydd plaid

Nid oes gan arweinydd y blaid unrhyw gyfrifoldebau uniongyrchol dan PPERA. Maent yn arwain y blaid. Fodd bynnag, os nad oes gan y blaid drysorydd ar unrhyw adeg, daw'r arweinydd yn gyfrifol am sicrhau fod y blaid yn cydymffurfio â PPERA.

## Trysorydd y blaid

Mae trysorydd y blaid yn gyfrifol dan y gyfraith am sicrhau fod y blaid yn cydymffurfio â PPERA ac yn gofalu am gyllid y blaid. Fel arfer, gyda thrysorydd y blaid fyddwn ni yn cysylltu ynglŷn â'ch plaid.

Am ragor o wybodaeth ar drysoryddion pleidiau, gweler:

- Cyflwyniad i fod yn drysorydd plaid

## Swyddog enwebu

Nid oes gan y swyddog enwebu unrhyw gyfrifoldebau uniongyrchol dan PPERA, ond mae ganddynt gyfrifoldebau dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. Swyddog enwebu yn gyfrifol am awdurdodi ymgeiswyr i sefyll ar ran plaid.

# 8

# Pwy all gofrestru â gyda ni?

Rydym yn cofrestru dwy fath o blaid – pleidiau gwleidyddol a phleidiau llai.

Pwysig

Mae oblygiadau adrodd gwahanol ar gyfer cofrestrau Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon. Rhaid i chi allu cydymffurfio â'r rhain os byddwch yn dewis cofrestru ar y ddau.

## Ar ba gofrestrau all pleidiau ymddangos?

### Pleidiau gwleidyddol

Gall pleidiau gwleidyddol wneud cais i gael eu cofrestru ar gofrestr Prydain Fawr, cofrestr Gogledd Iwerddon, neu'r ddwy.

### Pleidiau gwleidyddol llai

Dim ond ar gofrestr Prydain Fawr all pleidiau llai ymddangos.

## Ar ba gofrestr ddylech chi ymgeisio i ymddangos?

Mae'r cofrestrau ar gyfer Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon ar wahân. Cyn ymgeisio, dylech feddwl yn ofalus ar ba gofrestr yr hoffech ymddangos.

Dim ond os ydych yn credu y byddwch yn sefyll etholiad ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon ddylech chi wneud cais i ymddangos ar y ddwy gofrestr.

Os byddwch y gwneud cais ar gyfer y ddwy gofrestr, rhaid i chi gadw manylion ariannol pob plaid ar wahân. Byddwch hefyd angen cyflwyno cyfrifon, adroddiadau rhoddion a benthyciadau ar wahân ar gyfer Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon.

Os byddwch yn gwneud cais ar gyfer cofrestr Prydain Fawr, gallwch ddewis ym mha rannau o Brydain Fawr yr hoffech gofrestru. Gallwch ddewis unrhyw gyfuniad o Gymru, Lloegr a'r Alban. Nid oes rhaid i chi gofrestru ar gyfer y tair, dim ond y rhannau lle'r hoffech ymladd etholiadau.

# Cofrestru'ch plaid

Cyn y gallwch gofrestru eich plaid, bydd angen i chi sefydlu ambell beth a gwneud penderfyniadau pwysig.

Rhai o'r rhain yw:

- Penderfynu pa fath o blaid sy'n gweddu orau i'ch nodau ac amcanion
- Cytuno ar rolau swyddogol
- Penderfynu ar enw, disgrifiadau ac arwyddluniau eich plaid (nodau adnabod plaid)
- Penderfynu ar ym mha rannau o'r Deyrnas Unedig yr hoffech gofrestru i ymladd etholiadau
- Cytuno ar strwythur ariannol y blaid

Am ragor o wybodaeth ar arwyddluniau pleidiau, gweler:

- Trosolwg o enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau pleidiau

## Pleidiau gwleidyddol cofrestredig

Bydd angen i'ch plaid benodi pobl i rolau swyddogol penodol.

Sef:

- Arweinydd y blaid – fydd yn arwain y blaid
- Trysorydd y blaid – fydd yn gyfrifol am sicrhau bod eich plaid yn cydymffurfio â'r rheolau ariannol
- Swyddog enwebu – fydd yn awdurdodi ymgeiswyr i sefyll etholiad ac i ddefnyddio enw'r blaid ar bapurau pleidleisio

Pwysig

Gall un unigolyn ymgymryd ag un neu fwy o'r rolau uchod, ond mae'n rhaid i chi gofrestru o leiaf dau o bobl wahanol â ni fel swyddogion plaid. Os mai un unigolyn sy'n gyfrifol am y tair rôl swyddogol, rhaid i chi gofrestru rhywun fel swyddog ychwanegol.

Os hoffech, gallwch hefyd benodi rhywun i fod yn swyddog ymgyrchoedd i chi. Mae swyddog ymgyrchoedd yn cyflawni cyfrifoldebau'r trysorydd o ran gwariant plaid yn ystod etholiadau a refferenda. Ni all y swyddog ymgyrchoedd a'r trysorydd fod yr un person.

# 10

## Pleidiau gwleidyddol llai

Fel plaid wleidyddol lai, byddwch angen arweinydd i'r blaid ac un swyddog ychwanegol i gyflawni'r rolau swyddogol.

# Strwythur eich plaid

## Cyfansoddiad eich plaid

Yn rhan o'ch cais, bydd angen i chi anfon cyfansoddiad eich plaid atom. Bydd hyn fel arfer yn delio â materion megis sut mae'ch plaid wedi ei threfnu a sut mae'n cyflawni ei busnes.

Byddwn yn defnyddio'ch cyfansoddiad i wirio a oes unrhyw beth ynddo fydd yn gwrthdaro â'ch cynllun ariannol dan PPERA. Er enghraifft, Sut mae'ch cyfrifon yn cael eu cymeradwyo.

Nid oes unrhyw ofynion ynglŷn â beth ddylai cyfansoddiad eich plaid ei nodi, ond efallai yr hoffech gynnwys y canlynol:

- nodau ac amcanion eich plaid
- strwythur eich plaid – er enghraifft, os oes gennych ganghennau
- sut mae'r blaid yn cael ei rhedeg – er enghraifft, amlder cyfarfodydd a sut y gwneir penderfyniadau
- pa swyddogion sydd gennych a beth yw eu cyfrifoldebau
- os oes gennych ofynion aelodaeth

## Eich cynllun ariannol

Cyn i chi wneud cais, bydd angen i chi lunio cynllun ariannol.

Mae'ch cynllun ariannol yn arddangos sut fydd eich plaid yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol cyllid plaid ac etholiad dan PPERA.

Am ragor o wybodaeth, gweler:

- Cyflwyno cais a chofrestru plaid wleidyddol

Dylai'ch cynllun gynnwys gweithdrefnau ar gyfer:

- cofnodion cyfrifo
- delio â rhoddion a benthyciadau
- cynnal eich manylion cofrestredig gyda ni
- awdurdodi ac adrodd ar wariant ymgyrchu

Rydym yn cynhyrchu cynllun model y gallwch ei ddefnyddio fel dogfen sylfaen i greu cynllun ariannol eich plaid.

Nid oes rhaid i chi ddefnyddio'r cynllun hwn, ond mae'n cynnwys yr holl feysydd perthnasol i'w hystyried. Os ydych yn penodi swyddog ymgyrchoedd, neu os bydd gan eich plaid unedau cyfrifo, nid yw'r cynllun hwn yn addas. Gallwn ddarparu cynlluniau priodol i chi, felly ffoniwch ni.

## Creu un blaid ganolog, neu blaid ganolog gydag unedau cyfrifo

Yn ariannol, mae'r rhan fwyaf o bleidiau yn gweithredu fel un uned (a elwir yn blaid ganolog). Fodd bynnag, os oes gennych blaid fawr, neu os yw'ch plaid ar wasgar yn ddaearyddol, efallai yr hoffech sefydlu canghennau' i'r blaid.

Gelwir y canghennau hyn yn 'unedau cyfrifo'. Maent yn adrannau o blaid nad yw eu cyllid wedi ei reoli gan bencadlys y blaid.

Mae unedau cyfrifo yn gyfrifol am reoli eu rhoddion a benthyciadau eu hunain, gan roi adroddiadau i'r blaid ganolog, a chyflwyno cyfrifon blynyddol eu huned i ni.

Rhaid bod gan bob uned gyfrifo ei thrysorydd ac ail swyddog ei hun. Wrth i chi wneud cais, bydd angen i chi roi gwybod i ni os ydych yn bwriadu cael unedau cyfrifo.

Am ragor o wybodaeth ar drysoryddion pleidiau, gweler:

- Cyflwyniad i fod yn drysorydd plaid

# 12

# Dewis enw, disgrifiadau ac arwyddluniau i'ch plaid

Yn rhan o'ch cofrestriad, rhaid i chi hefyd ddewis enw i'ch plaid.

Gallwch hefyd gofrestru:

- Hyd at 12 disgrifiad o'r blaid
- Hyd at 3 arwyddlun

## Enwau a disgrifiadau plaid

Os teimlwch ei bod yn briodol, gallwch gofrestru eich enw a disgrifiadau yn Gymraeg, Gwyddeleg neu unrhyw iaith arall yn ogystal â Saesneg.

Dan PPERA, mae enwau pleidiau a disgrifiadau pleidiau wedi eu cyfyngu i chwe gair yr un. Mae hyn i atal annibendod ar bapurau pleidleisio o ganlyniad i enwau a disgrifiadau hir o bleidiau.

Am ragor o wybodaeth, gweler:

- Trosolwg o enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau pleidiau
- Cyflwyno cais a chofrestru plaid wleidyddol

# Pa enwau a disgrifiadau na allwn ni eu cofrestru?

Fel canllaw cryno, ni allwn gofrestru enwau a disgrifiadau sy'n:

- hirach na chwe gair
- yn debyg i enw plaid arall ac felly'n debygol o ddrysu pleidleiswyr
- yn aflan neu ymosodol
- yn debygol o fod yn dramgwydd
- yn cynnwys geiriau penodol sydd wedi eu gwahardd – er enghraifft, ni chaniateir 'Dim un o'r uchod'

## Arwyddluniau plaid

Byddwch yn gallu defnyddio eich arwyddlun ar bapurau pleidleisio mewn rhai etholiadau. Dan PPERA, dim ond mewn du a gwyn y gallwn ni gofrestru eich arwyddlun.

Gallwch gael arwyddluniau lliw i'ch plaid, ond dylai'r arwyddlun a anfonwch atom i'w gofrestru (ac i ymddangos ar y gofrestr) fod yn ddu a gwyn yn unig.

## Pa arwyddluniau na allwn eu cofrestru?

Fel canllaw cryno, ni allwn gofrestru arwyddlun sy'n:

- debyg i un plaid arall ac yn debygol o achosi i bleidleiswyr ei drysu â phlaid gofrestredig arall
- yn aflan neu ymosodol
- yn debygol o fod yn dramgwydd – er enghraifft, ni chaniateir arwyddlun sy'n dangos delwedd anghyfreithiol, anfoesol neu droseddol
- yn cynnwys geiriau penodol a waharddwyd – er enghraifft, ni chaniateir arwyddlun sy'n cynnwys y gair 'Prydeinig' yn unig
- yn unrhyw liw ac eithrio du a gwyn

Am ragor o wybodaeth ar beth ellir ac na ellir ei gofrestru, gweler:

- Trosolwg o enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau pleidiau

# Beth nesaf?

Os ydych wedi penderfynu eich bod yn dal am gofrestru'ch plaid a'ch bod wedi gwneud eich penderfyniadau i gyd, rydych yn barod i wneud cais.

Rydym yn argymell eich bod yn darllen y dogfennau canlynol nesaf:

- Trosolwg o enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau pleidiau
- Cyflwyno cais a chofrestru plaid wleidyddol

Bydd y dogfennau hyn yn esbonio'r rheolau a'r broses gofrestru yn fanylach. Yna bydd gennych yr holl wybodaeth sydd arnoch ei hangen i wneud y penderfyniadau cywir am ymgeisio.

# Sut gallwn ni helpu

# 14

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn y dogfennau cyfarwyddyd yr ydym wedi eu hawgrymu yn y ddogfen hon, neu gallwch weld ein dewis llawn o gyfarwyddyd ac adnoddau cyfredol ar ein gwefan.

Os yw hynny'n haws, gallwch hefyd gysylltu â ni ar un o'r rhifau ffôn neu gyfeiriadau e-bost isod. Rydym yma i'ch helpu, felly cysylltwch â ni.

Ffoniwch ni ar:

- Lloegr: 020 7271 0616
  pef@electoralcommission.org.uk
- Yr Alban: 0131 225 0200
  infoscotland@electoralcommission.org.uk
- Cymru: 029 2034 6800
  infowales@electoralcommission.org.uk
- Gogledd Iwerddon: 028 9089 4020
  infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Ewch i'n gwefan yn www.electoralcommission.org.uk

Rydym yn croesawu adborth ar ein cyfarwyddyd – anfonwch e-bost atom yn: pef@electoralcommission.org.uk.

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth ynghylch cael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu ar ffurf print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uk